# CYNLLUN HYGYRCHEDD

## YGG Bryniago

**CYFNOD TAIR BLYNEDD Y CYNLLUN:**

**2024 – 2027**

**Dyddiad cymeradwyo gan y corff llywodraethu:** NODWCH **Dyddiad yr adolygiad blynyddol:** NODWCH **Dyddiad yr adolygiad llawn:** NODWCH

Cyngor Abertawe
Swansea Council

| **Adran** | **Cynnwys** | **Rhif tudalen** |
| --- | --- | --- |
| | Rhagair | 3 |
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Deddfwriaeth | 5 |
| 3. | Hawliau Plant | 6 |
| 4. | Rolau a Chyfrifoldebau | 6 |
| 5. | Gwybodaeth ac Ymgysylltu | 6 |
| 6. | Ein Cynllun Hygyrchedd | 9 |
| 7. | Cyhoeddi a Monitro Canlyniadau | 10 |
| **Atodiad 1** | Cynllun Hygyrchedd | 11 |

## Rhagair

Yn Ysgol YGG Bryniago rydyn ni’n cydnabod ac yn cynnal ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dysgwr, gweithiwr, ac aelod o gymuned ein hysgol.

Rydyn ni’n cydnabod y model cymdeithasol o anabledd sy'n nodi bod unigolion yn cael eu hanablu gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu amhariad neu wahaniaeth. Rydyn ni’n ymdrechu i ganfod a dileu rhwystrau o’r fath i sicrhau cyfranogiad llawn ym mywyd ein hysgol o ddydd i ddydd.

Mae ein Cynllun Hygyrchedd wedi’i lywio gan farn ein dysgwyr anabl a’r rhai nad ydyn nhw’n anabl, rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr a’r gymuned ehangach gan sicrhau ei fod yn mynd i’r afael yn drylwyr â blaenoriaethau ar gyfer gwella ac yn ategu ac yn cefnogi’r Amcanion Cydraddoldeb sydd wedi’u nodi yn Nghynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol.

Mae'r Cynllun Hygyrchedd yn dangos sut y bydd mynediad yn cael ei wella ar gyfer dysgwyr anabl presennol, ac mae'n rhagweld angen yn y dyfodol i wneud addasiadau rhesymol i leihau a dileu rhwystrau a nodwyd.

Bydd yr ysgol a’r corff llywodraethu yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni ein blaenoriaethau gwella fel sydd wedi’u hamlinellu yn y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei rannu a'i gyhoeddi fel bod tryloywder ac atebolrwydd. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â chymuned ein hysgol a phartneriaid ehangach er mwyn sicrhau bod ein Cynllun a’r camau a gymerwn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion sydd ag anableddau yn ein hysgol ac i aelodau o gymuned ein hysgol.

Yr arweinydd strategol ar gyfer ein Cynllun Hygyrchedd yw: Cliciwch yma i fewnbynnu testun.

Enw **Nia Jones** Enw Karen Thomas

**PENNAETH** **CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR**

## Adran 1: Cyflwyniad

Mae gweledigaeth ein hysgol yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac yn sicrhau bod amrywiaeth a gwahaniaeth yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu go iawn yn ein hysgol.

*Gweledigaeth yr Ysgol*

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Bryniago yw cynnig cwricwlwm deinamig, perthnasol, pwrpasol ac ysgogol sy'n tanio'r angerdd am ddysgu yn ein dysgwyr. Bydd ein cwricwlwm yn cynnig profiadau eang, gwerthfawr a chofiadwy i'n dysgwyr. Bydd yn eu grymuso i adeiladu ar eu sgiliau a'u gwybodaeth blaenorol. Byddant yn cael eu herio i brofi llwyddiant. Bydd bob plentyn yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, y wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol. Yn ganolog i'n cwricwlwm cynhwysol mae ein hymrwymiad i ddatblygu meddylfryd a pherthnasoedd cadarnhaol fel bod ein dysgwyr yn ffynnu. O dan ein gofal a'n harweiniad bydd ein cwricwlwm yn datbygu ein dysgwyr i fod yn ddinasyddion annibynnol a chydweithredol a fydd yn barod i gerdded ymlaen yn hyderus yn eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Ysgogwn ein plant i deimlo balchder am eu gwlad a'u hiaith ac i drysori eu hetifeddiaeth a'u diwylliant.

"Allwedd diwylliant yw iaith".

Agorwn ddrysau'r dyfodol i blant ysgol Bryniago.

Mae ein hysgol yn trin dysgwyr a chymuned yr ysgol gyfan yn deg a chyda pharch. Mae hyn yn cynnwys darparu mynediad a chyfleoedd i bob dysgwr heb wahaniaethu o unrhyw fath.

Pwrpas ein Cynllun Hygyrchedd yw lleihau a dileu rhwystrau rhag mynediad i fywyd ysgol a sicrhau cyfranogiad llawn yng nghymuned yr ysgol ar gyfer dysgwyr anabl a darpar ddysgwyr anabl, yn ogystal â staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr sydd ag anabledd.

Mae ein Cynllun Hygyrchedd ar gael ar wefan yr ysgol, ac mae copïau caled ar gael ar gais. Mae'r ysgol yn cefnogi unrhyw bartneriaethau sydd ar gael i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn destun monitro a gwerthuso trylwyr.

## Adran 2: Deddfwriaeth

Mae ein Cynllun Hygyrchedd yn bodloni gofynion Atodlen 10 o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) sy'n gosod dyletswydd statudol ar ysgolion i baratoi Cynllun bob tair blynedd i wella mynediad i ddysgwyr anabl yn gynyddol.

Mae'r Ddeddf yn diffinio unigolyn anabl fel rhywun:

a) sydd ag **amhariad corfforol neu feddyliol**, a
b) bod yr amhariad yn cael **effaith andwyol sylweddol a hirdymor** ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

O dan y Ddeddf, diffinnir 'sylweddol' fel effaith andwyol sy'n fwy nag effaith fach, a diffinnir 'hirdymor' fel 12 mis neu fwy.

Mae gan ysgolion ddyletswydd i ddarparu addasiadau rhesymol a fydd yn galluogi dysgwyr anabl i gymryd rhan lawn yn eu haddysg yn yr ysgol a mwynhau'r manteision, y cyfleusterau a'r gwasanaethau/gweithgareddau eraill mae'r ysgol yn eu darparu ochr yn ochr â'u cyfoedion.

Mae ein Cynllun Hygyrchedd wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar y tair dyletswydd gynllunio statudol ac felly mae'n nodi blaenoriaethau gwella sy'n ymwneud â sut y bydd ein hysgol yn:

- Cynyddu i ba raddau y gall dysgwyr anabl gymryd rhan yn y cwricwlwm;
- Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol i gynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl fanteisio ar addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig;
- Gwella cyfathrebu gyda disgyblion anabl

## Adran 3: Hawliau Plant

Rydyn ni'n gosod hawliau plant wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud fel ysgol. Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** a **Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen i amddiffyn hawliau plant ag anableddau.

Mae **Erthygl 23** y **Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn** yn nodi bod gan blant ag anabledd hawl i fwynhau 'bywydau llawn ac annibynnol'. Yn ogystal, mae'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod gan bob plentyn hawl i gael gwybodaeth (**Erthygl 13**), addysg (**Erthyglau 28 a 29**) ac i fynegi eu barn (**Erthygl 12**).

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** yw'r cytundeb hawliau dynol rhyngwladol sy'n nodi hawliau dynol pobl anabl. Mae'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cynnwys ystyriaethau penodol yn ymwneud â phlant. Mae **Erthygl 7** yn nodi bod gan blant anabl yr un hawliau â phob plentyn arall. Mae **Erthygl 23** yn rhoi hawl i blant anabl a'u teuluoedd gael gwybodaeth a chymorth ac mae **Erthygl 24** yn nodi bod gan blant anabl hawl i addysg gynhwysol gyda chymorth i ddatblygu eu sgiliau a'u doniau i'r eithaf.

## Adran 4: Cysylltiadau â Pholisïau/Cynlluniau eraill

Mae'r Cynllun Hygyrchedd yn gysylltiedig â'r dogfennau a'r polisïau canlynol:

- *Cynllun Cydraddoldeb Strategol*
- *Polisi Cwricwlwm*
- *Polisi Iechyd a Diogelwch*
- *Polisi Ymddygiad/Gwrth-fwlio.*

## Adran 5: Rolau a Chyfrifoldebau

**Llywodraethwyr:**

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010), bydd y corff llywodraethu yn:

- sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Ddeddf ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â hi;
- gweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr yr ysgol a rhanddeiliaid allweddol i archwilio hygyrchedd yr ysgol er mwyn hysbysu'r Cynllun Hygyrchedd;
- sicrhau bod yr ysgol yn cyhoeddi ei Chynllun Hygyrchedd tair blynedd;
- gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd ac effeithiolrwydd y Cynllun yn flynyddol a chyhoeddi cynllun newydd bob tair blynedd;
- cyhoeddi gwybodaeth am y Cynllun yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni;
- ymgymryd â hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb anabledd a chynhwysiant;
- cyflwyno cynlluniau hygyrchedd i'r awdurdod lleol ar gais.

**Yr Uwch Dîm Arwain**

Mae Uwch Arweinwyr yn ein hysgol yn hyrwyddo hygyrchedd ac yn dileu gwahaniaethu drwy ymgymryd â chylch o ddatblygu, gweithredu ac adolygu'r Cynllun Hygyrchedd drwy:

- sefydlu prosesau ar gyfer nodi pob dysgwr anabl er mwyn sicrhau bod eu rhwystrau rhag cyfranogiad llawn yn cael eu nodi a'u hystyried fel rhan o waith cynllunio hygyrchedd;
- sicrhau bod y Cynllun Hygyrchedd yn ystyried y cwmpas eang mae diffiniad anabledd yn ei gynnwys ac yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng anabledd ac ADY;
- archwilio/adolygu canlyniadau cynlluniau blaenorol a chwblhau/diweddaru Archwiliad Hygyrchedd i nodi rhwystrau rhag hygyrchedd;
- sicrhau bod barn dysgwyr anabl a'u rhieni/gofalwyr yn ganolog i'r gwaith o adolygu a datblygu'r Cynllun Hygyrchedd;
- ymgynghori ag ystod o randdeiliaid;
- nodi blaenoriaethau gwella ar gyfer pob un o'r tair dyletswydd gynllunio;
- sicrhau bod y cynllun yn nodi'n glir amcanion tymor byr, tymor canolig a hirdymor yr ysgol gyda thargedau/nodau penodol a mesuradwy ac amserlenni clir;
- gweithredu'r Cynllun Hygyrchedd;
- sicrhau bod proses adolygu a gwerthuso ar waith;
- cynnwys y Cynllun Hygyrchedd ar wefan yr ysgol a sicrhau ei fod ar gael ar ffurf copi caled;
- darparu adroddiad gwerthuso blynyddol i'r corff llywodraethu yn manylu ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Hygyrchedd.

## Adran 6: Gwybodaeth ac Ymgysylltu

Er mwyn llywio'r gwaith o baratoi ein Cynllun Hygyrchedd, rydyn ni wedi cynnal adolygiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r blaenoriaethau gwella a'r camau gweithredu a nodwyd yn ein Cynllun Hygyrchedd blaenorol. Yn ogystal, rydyn ni wedi archwilio ein hygyrchedd ac wedi ceisio adborth gan ein dysgwyr anabl a'u rhieni/gofalwyr yn ogystal â asiantaethau rydyn ni'n gweithio yn agos gyda hwy (e.e. ysbytai, athrawon arbenigol ayb) i nodi'r rhwystrau sy'n parhau rhag hygyrchedd ac i lywio camau gweithredu y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael â nhw. Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol hefyd wedi llywio'r Cynllun.

**Dyma ein prif ganfyddiadau:**

**Dyletswydd Gynllunio 1: Cynyddu i ba raddau y gall dysgwyr anabl gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol**

Mae angen i ddysgwyr anabl i gael yr un profiadau a'u cyfoedion pan yn yr ysgol a tra eu bod allan ar ymweliadau. Mae angen i'r ysgol i weithio yn agos gydag asiantaethau arbennigol er mwyn cynllunio ac addasu gweithgareddau ar gyfer y dysgwyr anabl. Yn aml, dydy'r dysgwyr anabl ddim am cael eu trin yn wahanol i'w cyfoedion ac felly, mae angen i'r ysgol i sicrhau bod yr addasiadau a wneir yn rhywbeth y gellir ei gwmpasu i'r dosbarth/ ysgol gyfan er mwyn sirchau nad yw'r dysgwr anabl yn teimlo ei f/bod yn wahanol.

**Dyletswydd Gynllunio 2: Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol**

Mae angen i amgylchedd yr ysgol fod yn hygyrch ar gyfer dysgwyr ac ymwelwyr i'r ysgol. Dydy anabledd ymwelwyr ddim bob amser yn hysbys i staff yr ysgol ac felly trwy sicrhau bod yr amgylchedd yn hygyrch mae'n gwneud y profiad o ymweld â'r ysgol yn fwy pleserus i ymwelwyr. O ran y dyswyr sydd yn anabl, maent am gael yr un profiadau o fewn amgylchedd yr ysgol a'u cyfoedion

**Dyletswydd Gynllunio 3: Gwella mynediad i wybodaeth i ddysgwyr anabl**

Mae angen sicrhau bod gwybodaeth Cymraeg a Saesneg yn glir ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae angen sicrhau, os yn bosibl, bod y wybodaeth yn cael ei ddanfon allan yn ddigidol fel ei fod yn medru cael ei addasu i anghenion anabledd y rhieni/ gofalwyr. Mae angen sicrhau bod yr iaith yn syml a nad oes gormod o wybodaeth i rieni/ gofalwyr ddarllen. mae angen sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael ar wefan yr ysgol a bod cysylltu gyda'r ysgol yn broses hawdd i bawb.

## Adran 7: Ein Cynllun Hygyrchedd

Mae ein Cynllun wedi'i ddatblygu o'n canfyddiadau uchod. Ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yw:

- Sicrhau bod y staff wedi eu hyfforddi yn ddigonol i addysgu a chefnogi disgyblion ag amrywiaeth o anableddau
- Darparu cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyflawni h.y. maent yn gwahaniaethu ac yn cynnwys gwaith gan unigolion, parau, grwpiau bach a'r dosbarth cyfan yn ôl yr angen
- Staff yn cydnabod ac yn cynllunio ar gyfer yr amser a'r ymdrech ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion anabl a disgyblion gydag anawsterau dysgu
- Gwneud addasiadau/trefniadau rhesymol o ganiatáu mynediad i asesiad ar gyfer ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr ag anawsterau dysgu.
- Sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o'r angen i sicrhau bod teithiau addysgol ar gael i'r holl ddisgyblion beth bynnag yw eu gallu corfforol neu anghenion arbennig.
- Yr holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth, drama a gweithgareddau corfforol.
- Adeiladau ac amgylchedd yr ysgol i gydymffurfio â'r deddfwriaethau Iechyd a Diogelwch a DDA presennol.
- Gwneud arolwg pan fydd disgybl ac anabledd penodol yn dod i mewn
- Gweithdrefnau argyfwng tân
- Mynediad hawdd ar gyfer disgyblion sydd yn rhannol ddall
- Technoleg ac arferion er mwyn cynorthwyo disgyblion, rhieni a gofalwyr ag anableddau e.e. sut i siarad â dysgwr sydd â nam ar y clyw
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hawdd ei defnyddio mewn gwersi a chyfarfodydd rhieni e.e. drwy ddarllen allan yn uchel, defnyddio taflunwyr/cyflwyniadau PowerPoint ac ati.
- Sicrhau fod gan rieni, llywodraethwyr ac aelodau o'r cyhoedd fynediad llawn at wybodaeth a gyflwynir mewn cyfarfodydd, nosweithiau rheini a digwyddiadau.

Mae’r manylion llawn ar gael yn ein Cynllun yn Atodiad 1.

## Adran 8:  Cyhoeddi a Monitro Canlyniadau

Mae’r Cynllun Hygyrchedd ar gael ar wefan yr ysgol. Byddwn yn monitro’r Cynllun yn flynyddol. Bydd yr ysgol yn darparu adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu yn manylu ar ein cynnydd yn erbyn y Cynllun Hygyrchedd.  Yna, bydd y wybodaeth yn cael ei nodi yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni/Gofalwyr.

.

**Atodiad 1**

**YSGOL Gynradd Gymraeg Bryniago**

## CYNLLUN HYGYRCHEDD AR GYFER 20 24 tan 20 28

| **DYLETSWYDD GYNLLUNIO 1: Cynyddu i ba raddau y gall dysgwyr anabl gymryd rhan yn y cwricwlwm** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHESYMEG:**<br>*Beth ddysgoch chi o'r archwiliad/gwaith ymgysylltu?*<br>Mae angen i ddysgwyr anabl i gael yr un profiadau a'u cyfoedion pan yn yr ysgol a tra eu bod allan ar ymweliadau. Mae angen i'r ysgol i weithio yn agos gydag asiantaethau arbennigol er mwyn cynllunio ac addasu gweithgareddau ar gyfer y dysgwyr anabl. Yn aml, dydy'r dysgwyr anabl ddim am cael eu trin yn wahanol i'w cyfoedion ac felly, mae angen i'r ysgol i sicrhau bod yr addasiadau a wneir yn rhywbeth y gellir ei gwmpasu i'r dosbarth/ ysgol gyfan er mwyn sirchau nad yw'r dysgwr anabl yn teimlo ei f/bod yn wahanol. | | | | | | | | |
| **Blaenoriaeth** | **Tymor Byr/ Canolig/ Hir** | **Effaith Arfaethedig/Meini Prawf Llwyddiant** | **Camau Gweithredu Allweddol** | Arweinydd | **Amserlen** | **Cost/ Adnoddau** | **Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso (gan ddangos effaith/llwyddiant)** | **Adolygu/Gwerthuso** |
| Sicrhau bod y staff wedi eu hyfforddi yn ddigonol i addysgu a chefnogi disgyblion ag amrywiaeth o anableddau | Hir | Staff yn deall anghenion y disgyblion anabl. | Cynnal hyfforddiant trin â llaw 3 aelod o staff yr ysgol.<br>Hyfforddi staff Canolfan Iago o fewn agweddau penodol:<br>e.e. | S.Evans | Parhaol | Cost cyflenwi staff cymorth | Asesiadau trin â llaw cyson.<br>Holiaduron staff<br>Holiaduron rhieni | |
| Darparu cyfleoedd i'r holl ddisgyblion | Hir | Disgyblion yn gallu cael mynediad i'r Cwricwlwm. | Cysylltu gydag asiantaethau arbenigol lle mae angen | S.Evans | Parhaol | Adnodd au arbenni gol | Craffu ar lyfrau<br>Arsylwi gwersi<br>Holiaduron llais y plentyn | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gyflawni h.y. maent yn gwahaniaethu ac yn cynnwys gwaith gan unigolion, parau, grwpiau bach a'r dosbarth cyfan yn ôl yr angen | | | canllaw pellach e.e. anabledd corfforol | | | | | |
| Staff yn cydnabod ac yn cynllunio ar gyfer yr amser a'r ymdrech ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion anabl a disgyblion gydag anawsterau dysgu | Hir | Staff yn cael gwybodaeth am ddisgyblion unigol a'r dysgwyr yn teimlo eu bod yn llwyddo. | Rhaeadru unrhyw wybodaeth perthnasol am anabledd a'r dysgwyr sydd angen mwy o amser i gwblhau tasgau i'r staff perthnasol | S.Evans | Parhaol | | Craffu ar lyfrau<br>Arsylwi gwersi<br>Adolygiadau blynyddol, os yn berthnasol | |
| Gwneud addasiadau/trefniadau | Hir | Ymgeiswyr yn cael mynediad llawn i asesiad | Rhaeadru unrhyw wybodaeth | S. Evans | Parhaol | | Dadansoddiadau asesiadau personol | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| rhesymol o ganiatáu mynediad i asesiad ar gyfer ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr ag anawsterau dysgu. | | a'u hanghenion yn cael eu rheoli'n effeithiol | perthnasol am anabledd a'r dysgwyr sydd angen mwy o amser i gwblhau tasgau i'r staff perthnasol Gosod unrhyw addasiadau ar y system ar gyfer yr asesiadau personol ayb. | L. Singleton | | | | |
| Sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o'r angen i sicrhau bod teithiau addysgol ar gael i'r holl ddisgyblion beth bynnag yw eu gallu corfforol neu anghenion arbennig. | Parhaol | Pob disgybl yn cael mynd ar deithiau | Cysylltu gyda chwmniau bysiau o flaen llaw i sicrhau mynediad i fws sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn | Rh.Gealy | Parhaol | | Holiaduron rhieni/ llais y plant | |
| Yr holl ddisgyblion | Hir | Yr holl ddisgyblion i | Cysylltu gydag asiantaethau | N.Jones | Parhaol | | Adolygiadau blynyddol | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgaredd au cerddoriaeth, drama a gweithgaredd au corfforol. | | gymryd rhan mewn gwersi ac yn medru mynychu clybiau allgyrsiol/ cystadlaethau | allanol am gyngor o flaen llaw e.e gwersi nofio, addasu cystadlaethau mabolgampau'r ysgol ayb. | | | | | |

**DYLETSWYDD GYNLLUNIO 2: Gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol**

**RHESYMEG:**
*Beth ddysgoch chi o'r archwiliad/gwaith ymgysylltu?*
Mae angen i amgylchedd yr ysgol fod yn hygyrch ar gyfer dysgwyr ac ymwelwyr i'r ysgol. Dydy anabledd ymwelwyr ddim bob amser yn hysbys i staff yr ysgol ac felly trwy sicrhau bod yr amgylchedd yn hygyrch mae'n gwneud y profiad o ymweld â'r ysgol yn fwy pleserus i ymwelwyr. O ran y dyswyr sydd yn anabl, maent am gael yr un profiadau o fewn amgylchedd yr ysgol a'u cyfoedion.

| **Blaenoriaeth** | **Tymor Byr/ Canolig/ Hir** | **Effaith Arfaethedig/Meini Prawf Llwyddiant** | **Camau Gweithredu Allweddol** | Arweinydd | **Amserlen** | **Cost/ Adnoddau** | **Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso (gan ddangos effaith/llwyddiant)** | **Adolygu/Gwerthuso** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau ac amgylchedd yr ysgol i gydymffurfio â'r deddfwriaeth au Iechyd a | Byr | Sicrhau fod yr holl adeiladau yn gwbl unol â dogfennau perthnasol presennol. | Cysylltu gyda'r AALI i weld os oes angen gwneud unrhyw addasiadau i safle Bryniago Mawr | N.Jones | Tachwe dd 24- Awst 25 | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch a DDA presennol. | | | | | | | | |
| Gwneud arolwg pan fydd disgybl ac anabledd penodol yn dod i mewn | Parhaol | Disgybl yn medru cael mynediad i'r Ysgol | Cysylltu gyda'r AALl i weld os oes angen gwneud unrhyw addasiadau i ateb galw'r anghenion | N.Jones | | | | |
| Gweithdrefnau argyfwng tân | Parhaol | Disgyblion yn medru gadael yn ddiogel mewn argyfwng. | Cydweithio gyda'r CADY i sicrhau bod y PEEP's yn ateb gofynnion y disgyblion anabl | N.Jones | Parhaol | | | |
| Mynediad hawdd ar gyfer disgyblion sydd yn rhannol ddall | Parhaol | Personnau rhannol ddall a mwy o ymwybyddiaeth o leoliad ymyl palmant a llwybrau. | Gosod peintio llinellau gwyn yng nghalendr blynyddol y gofalwr | S.Davies | Blynyddol | | | |

**DYLETSWYDD GYNLLUNIO 3: Gwella'r modd y caiff gwybodaeth ysgrifenedig ei chyflwyno i ddisgyblion anabl.**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHESYMEG:**<br>*Beth ddysgoch chi o'r archwiliad/gwaith ymgysylltu?*<br>Mae angen sicrhau bod gwybodaeth Cymraeg a Saesneg yn glir ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae angen sicrhau, os yn bosibl, bod y wybodaeth yn cael ei ddanfon allan yn ddigidol fel ei fod yn medru cael ei addasu i anghenion anabledd y rhieni/ gofalwyr. Mae angen sicrhau bod yr iaith yn syml a nad oes gormod o wybodaeth i rieni/ gofalwyr ddarllen. mae angen sicrhau bod gwybodaeth allweddol ar gael ar wefan yr ysgol a bod cysylltu gyda'r ysgol yn broses hawdd i bawb. | | | | | | | | |
| **Blaenoriaeth** | **Tymor Byr/ Canolig/ Hir** | **Effaith Arfaethedig/Meini Prawf Llwyddiant** | **Camau Gweithredu Allweddol** | Arweinydd | **Amserlen** | **Cost/ Adnoddau** | **Gweithgareddau Monitro/Hunanwerthuso (gan ddangos effaith/llwyddiant)** | **Adolygu/Gwerthuso** |
| Technoleg ac arferion er mwyn cynorthwyo disgyblion, rhieni a gofalwyr ag anableddau e.e. sut i siarad â dysgwr sydd â nam ar y clyw | Hir | Staff yn ymwybodol o anghenion disgyblion anabl. | Cysylltu gydag asiantaethau arbennigol am ganllaw pellach pan mae'r angen yn codi | S.Evans | Parhaol | | | |
| Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei | Hir | Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno | Sicrhau bod gan yr holl ddosbarthiadau | | Parhaol | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| chyflwyno mewn ffordd hawdd ei defnyddio mewn gwersi a chyfarfodydd rhieni e.e. drwy ddarllen allan yn uchel, defnyddio taflunwyr/cyflwyniadau PowerPoint ac ati. | | mewn ffordd glir ac eglur. | fyrddau gwyn a byrddau gwyn rhyngweithiol. Sicrhau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff. | | | | | |
| Sicrhau fod gan rieni, llywodraethwyr ac aelodau o'r cyhoedd fynediad llawn at wybodaeth a gyflwynir mewn cyfarfodydd, nosweithiau rheini a | Parhaol | Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd glir ac eglur | Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i rieni drwy'r Prosbectws, Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni. Gofynnir i rieni gysylltu gyda'r ysgol os ydynt angen unrhyw gyfleusterau arbennig wrth | | Parhaol | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| digwyddiadau. | | | ddod i gyfarfodydd yn yr ysgol er mwyn cwrdd ag unrhyw anghenion penodol o'u hanabledd(e.e. BSL British sign Language) a/neu anghenion ieithyddol neu ddiwylliannol(e.e.Dehonglwr) | | | | | |